



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Asesu a lles dysgwyr: systemau cymorth cydfuddiannol

## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 207/2020  
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

# Asesu a lles dysgwyr: systemau cymorth cydfuddiannol

- Cynulleidfa** Mae'r ddogfen hon ar gyfer holl ymarferwyr ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng asesu a lles dysgwr. Mae'n archwilio sut mae defnyddio asesu yn barhaus, o ddydd i ddydd i bennu cynnydd dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono a myfyrio arno, yn cynnig cyfleoedd parhaus i hyrwyddo lles y dysgwyr.
- Camau i'w cymryd** Mae'r ddogfen yn cynnig awgrymiadau i ymarferwyr ystyried a myfyrio ar arferion presennol eu hysgol a sut y gellid eu gwella.

## Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Asesu  
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 03000 251620  
e-bost: [asesu@llyw.cymru](mailto:asesu@llyw.cymru)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/rhannu-ein-profiadau/](http://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/rhannu-ein-profiadau/)

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

# Cynnwys

Cyflwyniad	2
Lles ac addysg	2
Ymlyniad, ymreolaeth a galluedd: beth mae'r termau hyn yn eu golygu?	3
Ymlyniad, ymreolaeth a galluedd: sut mae asesu'n berthnasol?	4
Ymlyniad, galluedd ac ymreolaeth: sut gall ymarfer asesu hyrwyddo'r rhain?	5
Sut gall asesu hyrwyddo ymlyniad?	5
Sut gall asesu hyrwyddo ymreolaeth?	7
Sut gall asesu hyrwyddo galluedd?	8
Ymlyniad, galluedd ac ymreolaeth: cwestiynu, adborth, trafod a deialog	9
Ymlyniad, galluedd ac ymreolaeth: nodyn am gyfnodau pontio	12

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar rôl ymarferwyr o ran hyrwyddo lles pob dysgwr drwy eu hymarfer yn yr ystafell ddosbarth, ac yn benodol ymarfer asesu sy'n hyrwyddo ymdeimlad dysgwyr o ymlyniad, ymreolaeth a galluedd<sup>1</sup> a'u gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu dysgu.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig manau cychwyn ar gyfer myfyrio ac ystyried. Awgrymir y gallai ymarferwyr ystyried y rhain ar y cyd o fewn eu cyfnod neu eu hadran, ac yna myfyrio ar ymarferion presennol eu hysgol a sut y gellid ei wella ymhellach. Yna gallai'r trafodaethau cyfnod neu adran hyn fwydo i mewn i ddull neu bolisi ysgol gyfan a'u defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu enghreifftiau i'w rhannu a'u trafod ar draws yr ysgol.

## Lles ac addysg

Gall ymarfer asesu a gynlluniwyd i gefnogi dysgwyr unigol o ddydd i ddydd ac i bennu cynnydd dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono a myfyrio arno (gweler [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru)) wneud cyfraniad sylweddol at les meddyliol, emosiynol a chymdeithasol pob dysgwr. Ni ellir gwahanu'r tair agwedd hyn ar les yn ymarferol: mae lles meddyliol, emosiynol a chymdeithasol rhywun yn dair agwedd sy'n cyfrannu at les addysgol. Defnyddir y term lles yma yn hytrach nag iechyd neu salwch – mae'r termau hyn yn gysylltiedig â dulliau clinigol sy'n tueddu i ganolbwyntio ar ddulliau o fynd i'r afael â salwch meddyliol ac emosiynol unigolyn, ei leddfau neu ei liniaru. Nid yw hyn i anwybyddu anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol sydd wedi cael diagnosis clinigol (e.e. sgitsoffrenia neu iselder deubegynol) ac sydd angen triniaeth neu therapi; dylai amgylchedd ysgol sy'n hyrwyddo lles pawb gydnabod eu hanghenion am gymorth ychwanegol.

Bydd pob lles yn cynnwys teimladau o foddhad a hapusrwydd ond, fel y'i defnyddir yma, mae'r cysyniad o les yn mynd y tu hwnt i'r teimladau hyn i gynnwys datblygu a ffynnu fel person, teimlo'n fodlon eich byd a chyfrannu at y gymuned. Fel y mae'r gair 'well-being' yn awgrymu, mae'n ymwneud â 'bod' ar hyn o bryd, yn ogystal â 'dod' a pharatoi ar gyfer y dyfodol<sup>2</sup>.

Mae ystod eang o ffactorau sy'n effeithio'n negyddol ac yn gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc. Ni ellir disgwyl i ysgolion ac ymarferwyr ddatrys ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth (gan gynnwys anghydraddoldeb, tlodi, cyflogaeth ansicr, tai gwael neu salwch teuluol), ond mae yna bethau y gallant eu gwneud. Gall ysgolion ac ymarferwyr gynllunio a darparu profiadau dysgu a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r ddealltwriaeth, y sgiliau, y galluedd a'r tueddiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau, gwella eu gallu i ymdopi â sefyllfaoedd anodd a gwella lles a thrwy hynny liniaru effaith dylanwadau negyddol. Wrth gynllunio dysgu, gall ysgolion ac ymarferwyr hefyd ddileu unrhyw arferion asesu a allai effeithio'n negyddol ar les dysgwyr (e.e. rhai mathau o brofion). Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cyntaf heb geisio lleihau pwysigrwydd yr olaf.

---

<sup>1</sup> Roedd Alan McLean, pan oedd yn Brif Seicolegydd Addysg gydag Adran Addysg Cyngor Dinas Glasgow, yn arfer y termau 'affiliation, autonomy and agency'. Datblygodd y cysyniadau wrth hyrwyddo diwyllianau ystafell ddosbarth a fyddai'n ennyn diddordeb dysgwyr sydd wedi ymddieithrio ac roedd yn eu defnyddio i gefnogi dysgu proffesiynol a thrafodaethau gydag ymarferwyr. Mae ei lyfr *The Motivated School* a gyhoeddwyd yn 2003 gan Sage (Paul Chapman Publishing) yn rhoi rhagor o wybodaeth.

<sup>2</sup> Ceir trafodaeth bellach ar ystyr lles yng nghyd-destun yr ysgol yn Thorburn, Malcolm (gol.) (2018) *Wellbeing, Education and Contemporary Schooling* a gyhoeddwyd gan Routledge. Mae pennod 2 Malcolm Thorburn ei hun yn arbennig o ddefnyddiol ac mae'r diffiniad a ddefnyddir yma yn deillio o'i drafodaeth.

Mae dull ysgol gyfan yn bwysig o ran meithrin lles; mae dull o'r fath yn hyrwyddo diwylliant sy'n parchu holl aelodau cymuned yr ysgol ac yn cael ei gefnogi gan ddiwylliant o'r fath. Gan gydnabod y dull a'r diwylliant hwn, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar un maes allweddol y gall **pob ymarferydd** wneud cyfraniad sylweddol drwyddo at hyrwyddo **lles pob dysgwr** ym mhob dosbarth, ym mhob cyfnod, ac ym mhob maes o'r cwricwlwm: eu **hymarfer asesu**. Wrth wneud hynny, cydnabyddir:

- bod gweithgareddau a gynlluniwyd i hybu iechyd corfforol pawb (e.e. addysg gorfforol a bwyta'n iach) hefyd yn hyrwyddo lles meddyliol, emosiynol a chymdeithasol
- bod gweithgareddau dysgu â ffocws penodol wedi'u cynllunio i feithrin lles meddyliol, emosiynol a chymdeithasol pawb, e.e. addysg rhyw a chydberthynas, defnyddio sylweddau, deall iechyd meddwl
- y dylai ysgolion ddarparu, yn aml mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, mathau penodol o gymorth i unigolion neu grwpiau bach ag anghenion penodol, e.e. cwnsela, therapi celf, grŵp anogaeth.

Mae'r rhain i gyd yn elfennau angenrheidiol o ddull ysgol gyfan o hyrwyddo lles ond mae'r ffocws yma ar asesu yn yr ystafell ddosbarth.

## Ymlyniad, ymreolaeth a galluedd: beth mae'r termau hyn yn eu golygu?

Mae'r tri therm **ymlyniad**, **ymreolaeth** a **galluedd** yn crynhoi nodweddion diwylliannau ac arferion mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth sy'n hanfodol i hyrwyddo lles; mae'r nodweddion hyn eu hunain yn gydgysylltiedig. Mae awduron amrywiol yn defnyddio termau eraill gydag ystyron tebyg<sup>3</sup>.

Mae **ymlyniad** yn cyfeirio at y graddau a'r ffyrdd y mae'r dysgwr yn teimlo cysylltiad â'r ysgol a'r bobl ynddi – drwy gymryd rhan mewn diwylliant ac ethos cyffredin ac ymdeimlad cyffredin o fod yn aelod o gymuned. Yn benodol, mae lles yn cael ei feithrin gan ddiwylliant cynhwysol sydd, yn ei holl arferion, yn dangos parch at bob aelod o gymuned yr ysgol, yn hyrwyddo cydberthnasau cadarnhaol ac yn meithrin ymgysylltiad â'i werthoedd a'i weithgareddau craidd; wrth wraidd pob un o'r rhain fydd dysgu sy'n ategu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae diwylliant o'r fath yn cynnwys cydnabod hawl y plentyn i'w lais gael ei glywed a bod eraill yn gwrando arno wrth iddo gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol, gan gynnwys gweithgareddau dysgu yn yr ystafell ddosbarth<sup>4</sup>.

Fodd bynnag, nid yw ymlyniad heb **ymreolaeth** yn ddigon. Mae lles unigolion yn gysylltiedig â mynediad at gyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithgareddau, i wneud dewisiadau gwybodus ac i arfer rheolaeth. Er eu bod yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel hawl sydd gan bawb yn ein cymdeithas, yn aml mae cyfleoedd o'r fath yn cael eu cyfyngu gan amrywiaeth o ffactorau (e.e. tlodi neu afiechyd neu ddiweithdra). Ni all y system addysg ei hun wneud fawr ddim i ddileu'r ffactorau hyn, ond mae'n bosib y gallai liniaru rhai (e.e. drwy gymorth ariannol wedi'i dargedu). Fodd bynnag, yn bwysig, gall ysgolion ac ymarferwyr, drwy

---

<sup>3</sup> Er enghraifft, dywed Ros McLellan a Susan Steward 'wellbeing depends on the fulfilment of three core needs, namely the need for competence, autonomy and relatedness, with humans possessing the capacity or "will" to choose how to do this' yn eu herthygl o 2015 'Measuring children and young people's wellbeing in the school context', *Cambridge Journal of Education*, 45:3, tt307–322 (Taylor a Francis).

<sup>4</sup> Mae'r hawl hon wedi'i hymgorffori yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP): bydd y wladwriaeth yn sicrhau bod gan y plentyn sy'n gallu ffurfio ei safbwyntiau ei hun am fater yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arno, gan sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn cael sylw dyledus yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.

weithgareddau dysgu, roi cyfleoedd i bob dysgwr arfer ymreolaeth yn y man diogel a gynigir gan yr ystafell ddosbarth a, thrwy wneud hynny, datblygu'r tueddiadau a'r galluedd sydd eu hangen i wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain drwy gydol eu hoes.

Fodd bynnag, bydd ymreolaeth yn gyfyngedig os nad yw'r dewisiadau sydd ar gael yn sylweddol. Mae **galluedd** yn awgrymu bod yn rhaid i ddysgwyr allu gweld y bydd eu dewisiadau'n gwneud gwahaniaeth iddynt hwy eu hunain a/neu i eraill o'u cwmpas. Wrth i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd iddynt arfer galluedd drwy wneud dewisiadau go iawn (nid dibwys), byddant yn datblygu eu dealltwriaeth eu hunain o'r cyfrifoldeb hwn a'u cymhwysedd wrth ei gyflawni os ydynt yn credu bod eraill yn gwrando ar eu dewisiadau a chanlyniadau'r rhain ac yn eu hystyried yn ddifrifol ac yn barchus.

Oherwydd y cysylltiad agos rhwng y cysyniadau hyn, mae'n amhosib gwahaniaethu'n llwyr rhyngddynt yn ymarferol, eu gweld fel cysyniadau annibynnol neu fynd i'r afael ag un heb fynd i'r afael â'r lleill.

## Ymlyniad, ymreolaeth a galluedd: sut mae asesu'n berthnasol?

Mae *canllawiau Cwricwlwm i Gymru* (gweler [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru))<sup>5</sup> yn amlinellu'r galluedd a'r priodoleddau y mae dysgwyr yn eu datblygu wrth iddynt wireddu'r pedwar diben a chaffael y sgiliau annatod sy'n sail i'r dibenion hyn. Mae'r datganiadau byr hyn yn dangos pwysigrwydd hyrwyddo lles drwy bob agwedd ar gynllunio ac ymarfer y cwricwlwm, gan gynnwys cynllunio ac arfer asesu. Mae'r chwe egwyddor allweddol sy'n sail i ymarfer asesu<sup>6</sup> yn rhoi arwyddion clir pellach o sut, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y gall ymarfer asesu yn yr ystafell ddosbarth gyfrannu at hyrwyddo lles.

Felly, wrth i ymarferwyr gynllunio a defnyddio asesu i gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd ac i bennu cynnydd dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno, byddant yn cael cyfleoedd parhaus i hyrwyddo ymlyniad, ymreolaeth a galluedd ac felly lles pob dysgwr. Adlewyrchir hyn yn rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr a dysgwyr wrth iddynt gymryd rhan mewn asesu yn yr ystafell ddosbarth<sup>7</sup>. Mae rolau a chyfrifoldebau'r ymarferydd yn cynnwys '[g]alluogi dysgwyr i werthfawrogi ble maent arni yn eu dysgu, i ble mae angen iddynt fynd nesaf, a sut y byddant yn cyrraedd yno ... i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ... drwy:

- fod yn glir ynghylch y dysgu a fwriedir a chynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb yn unol â hynny
- rhannu dysgu a fwriedir â dysgwyr yn briodol
- gwerthuso dysgu, gan gynnwys drwy arsylwi, holi a thrafod
- rhoi adborth perthnasol a phenodol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, ac yn symud eu dysgu yn ei flaen
- annog dysgwyr i fyfyrion ar eu cynnydd a, lle bo'n briodol, eu hannog i ystyried sut y maent wedi datblygu, pa brosesau dysgu y maent wedi manteisio arnynt, a'r hyn y maent wedi'i gyflawni
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn effeithiol
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran gwneud defnydd effeithiol o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen

---

<sup>5</sup> *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* tt 23–24

<sup>6</sup> *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* t 223

<sup>7</sup> *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* t 227

- cynnwys rhieni/gofalwyr yn natblygiad a chynnydd dysgwr, gan gynnwys y dysgwr yn y ddeialog hon fwyfwy dros amser...'

Ochr yn ochr â hyn, mae 'Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu' (gweler <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/>) yn nodi'n glir bod angen i rolau a chyfrifoldebau'r dysgwr gymryd rhan weithredol a rhyngweithiol yn y prosesau asesu – 'rôl dysgwyr yw cyfrannu at y broses ddysgu a chymryd rhan ynddi ... dylai'r dysgwyr gael eu cefnogi a'u hannog i:

- ddeall ble maent yn eu dysgu a ble mae angen iddynt fynd nesaf
- datblygu dealltwriaeth o sut y byddant yn cyrraedd yno
- ymateb yn weithredol i adborth ar eu dysgu
- adolygu eu cynnydd dysgu, a chyfleu hyn yn unigol a chydag eraill
- myfyrio ar eu taith ddysgu a datblygu cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain dros amser.'

Bydd ymarfer asesu sydd wedi'i gynllunio i gynnwys ymarferwyr a dysgwyr wrth gyflawni'r rolau hyn yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd yn cynorthwyo pob dysgwr i ddatblygu ei ymdeimlad o ymlyniad, ymreolaeth a galluedd a'r tueddiadau a'r galluedd cysylltiedig.

## Ymlyniad, galluedd ac ymreolaeth: sut gall ymarfer asesu hyrwyddo'r rhain?

Gall ymarferwyr gynllunio asesu mewn ffyrdd sy'n gwella'r cyfleoedd hyn i feithrin lles a dylid eu cefnogi i wneud hynny. Er bod pob un o'r agweddau hyn yn cael ei hystyried yn ei thro, mae datganiad sy'n ymwneud ag un agwedd yn aml yn berthnasol i'r ddwy agwedd arall a/neu'n ymwneud yn agos â phwynt am un arall o'r agweddau.

## Sut gall asesu hyrwyddo ymlyniad?

Mae dealltwriaeth dysgwyr o'r hyn y bwriedir iddynt ei ddysgu yn agwedd allweddol ar hyrwyddo ymlyniad a diwylliant o ymgysylltu mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Ni fydd dysgwyr nad ydynt yn deall diben gweithgaredd dysgu (yn syth ac yn y tymor hwy) yn ei ystyried yn ddealladwy neu'n werthfawr, maent yn annhebygol o deimlo ymrwymiad iddo ac felly ni fyddant yn ymgysylltu'n ystyrion ag ef. Mae rhannu dealltwriaeth o'r dysgu sydd mewn golwg yn cynnwys sicrhau eu bod yn deall beth sy'n rhaid iddynt ei wneud nesaf, ond mae hefyd yn cynnwys sicrhau y gallant weld dibenion addysg y tu hwnt i'r cyd-destun uniongyrchol a deall sut gallant ddefnyddio eu dysgu presennol mewn cyd-destunau newydd a/neu ei symud ymlaen i'r cam nesaf.

Felly, mae'n bwysig ystyried **bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant**. Ym mhob cam, mae bwriadau dysgu yn ei gwneud yn glir i bawb dan sylw beth ddylai dysgwr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud erbyn diwedd profiad dysgu. Mae bwriadau dysgu pwerus yn canolbwyntio ar yr hyn sydd i'w ddysgu yn hytrach nag ar dasgau neu weithgareddau penodol. Maent yn ymwneud â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm ac felly cysyniadau pwerus a sgiliau lefel uchel. Gan fod cwestiynau da yn rhai penagored yn hytrach na chaeedig, felly hefyd mae bwriadau dysgu da yn hyrwyddo trafodaeth a myfyrio ar ran dysgwyr yn hytrach na bod ar ffurf rhestrau gwirio caeedig i'w 'ticio' o un wers i'r llall. Wrth fyfyrio ar egwyddorion dilyniant, byddant yn cydnabod ac yn adeiladu'n glir ar brofiadau a dysgu blaenorol dysgwyr. Nid yw bwriadau dysgu pwerus yn rhy fanwl a bydd eu cyflawni fel arfer yn golygu dysgu dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig cydnabod y bydd mwy nag un llwybr at gyflawni bwriad dysgu yn aml

ac y gellir defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i ddangos bod dysgwr wedi cyflawni'r bwriad dysgu.

Yna gellir defnyddio bwriadau dysgu i gynhyrchu meini prawf llwyddiant, a fydd yn rhoi gwybodaeth glir i bawb dan sylw (y dysgwr, yr ymarferydd, eraill) am y mathau o dystiolaeth o ddysgu a fydd yn cyfiawnhau penderfyniadau bod y bwriadau dysgu hyn wedi'u cyflawni. Ni fydd meini prawf llwyddiant sy'n deillio'n uniongyrchol o'r bwriadau dysgu yn hytrach nag o dasgau neu weithgareddau penodol yn cael eu mynegi ychwaith fel cyfres o ddatganiadau manwl i'w cyflawni. Bydd meini prawf llwyddiant da yn cefnogi meddwl am yr hyn a fydd yn cyfrif fel tystiolaeth berthnasol o ddysgu a bydd yn caniatáu i'r dystiolaeth hon fod ar wahanol ffurfiau ar gyfer gwahanol ddysgwyr o fewn grŵp. Anaml y bydd cwblhau gweithgaredd ynddo'i hun yn dystiolaeth ddigonol bod bwriadau dysgu wedi'u cyflawni.

Mae bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant da yn cefnogi cynnydd drwy edrych ymlaen at y cam dysgu nesaf, yn ogystal â llywio penderfyniadau am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma; byddant yn dangos i ddysgwyr sut gellir ymestyn eu dysgu yn fanylach a/neu'n ehangach ac yn eu cyfeirio at gyfleoedd i gymhwyso eu dysgu'n effeithiol mewn cyd-destunau newydd a heriol.

Er mwyn cefnogi a datblygu ymhellach ymdeimlad dysgwyr o ymlyniad, bydd ymarferwyr yn cynnwys dysgwyr mewn deialog i ganfod eu dealltwriaeth o'r rhain. Yna gall dysgwyr weld sut mae eu gweithgareddau dysgu yn cyd-fynd â'r bwriadau dysgu a sut y gallant ddefnyddio'r gweithgareddau dysgu hyn i gynhyrchu tystiolaeth o ddysgu sy'n cyfateb i feini prawf llwyddiant perthnasol. Ni ddylid gweld rhannu fel proses un ffordd; cefnogir yr ymdeimlad o ymlyniad ymhellach pan fydd dysgwyr eu hunain yn cyfrannu at gynllunio bwriadau dysgu, at ddatblygu meini prawf llwyddiant ac at gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n cyd-fynd â'r rhain. Yn benodol, bydd cynnwys dysgwyr fel hyn yn sicrhau cydnabyddiaeth o ddysgu a phrofiad blaenorol ac felly'n cefnogi cynnydd.

### **Ar gyfer ystyried a myfyrio**

- Sut ydw i'n datblygu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant wrth i mi gynllunio dysgu ar hyn o bryd? Sut ydw i'n sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r datganiadau beth sy'n bwysig ac yn annog dysgu manwl y gellir ei ddefnyddio mewn cyd-destunau newydd?
- I ba raddau y mae bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cefnogi cynnydd drwy edrych ymlaen at y cam dysgu nesaf yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma? Pa mor dda y mae cynllunio'n edrych y tu hwnt i'r cyd-destun uniongyrchol ar gefnogi cynnydd yn y tymor hwy?
- Sut ydw i wedi cynnwys dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant? Sut gallaf i gynnwys dysgwyr ymhellach yn y prosesau hyn?
- Sut gallaf i adeiladu ar fy ymarfer a'i wella er mwyn:
  - sicrhau fy mod yn ymwybodol o ddysgu blaenorol dysgwyr ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu bwriadau dysgu sy'n adeiladu ar hyn?
  - cydnabod efallai na fydd un set gyffredin o fwriadau dysgu yn cyfateb i holl anghenion pob dysgwr yn yr ystafell ddosbarth?
  - datblygu bwriadau dysgu pwerus lefel uchel sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig yn y cwricwlwm?
  - datblygu meini prawf llwyddiant y gellir eu dangos drwy wahanol fathau o dystiolaeth, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, dystiolaeth o'r tu hwnt i'r ystafell ddosbarth?



## Sut gall asesu hyrwyddo ymreolaeth?

Mae datblygu a rhannu bwriadau dysgu priodol a meini prawf llwyddiant hefyd yn ffordd rymus o hyrwyddo ymdeimlad dysgwyr o ymreolaeth. Mae cynnwys dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant a sicrhau dealltwriaeth o'r rhain drwy gymryd rhan mewn deialog â'r athro a chyda'i gilydd yn eu grymuso nhw'n gyntaf wrth iddynt gyfrannu'n weithredol at gynllunio dysgu, ac yna wrth iddynt werthuso (gan ddefnyddio prosesau hunanasesu ac asesu cyfoedion) pa mor dda y maent wedi dysgu. Fel y cam cyntaf yn y broses, gall ymarferwyr ennyn a thrafod tystiolaeth o ddysgu blaenorol gan ddysgwyr, gan roi cyfle iddynt ymarfer hunanasesu a mynegi a dangos tystiolaeth o'u dysgu.

Rhaid i fwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant hefyd ddarparu lle a chyfleoedd i ddysgwyr unigol wneud dewisiadau. Drwy gydol gweithgaredd dysgu, hyrwyddir ymreolaeth pan all dysgwyr wneud dewisiadau go iawn a chynhyrchu gwahanol fathau o dystiolaeth i ddangos bod meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni; mae'r gallu i gyfiawnhau dewisiadau a phenderfyniadau yn gyfraniad pwysig at ddatblygu'r gallu i weithredu'n annibynnol ac yn gyfrifol.

Mae prosesau dysgu cydweithredol yn hyrwyddo rhannu'r cyfrifoldeb am ddysgu o fewn y grŵp ac felly'n hyrwyddo trafodaeth, a thrwy hynny mae dysgwyr yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o fwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant. Mae rhyngweithio rhwng cyfoedion yn debygol o fod yn llwyddiannus pan fydd nodau grŵp (fel bod dysgwyr yn gweithio fel grŵp, nid mewn grŵp yn unig) a phan fydd y grŵp wedi'i drefnu fel bod dysgwyr yn atebol yn unigol i'r grŵp am ansawdd eu cyfraniad. Bydd dysgwyr yn elwa ar gymorth cychwynnol a pharhaus i:

- ddatblygu eu gallu i ddefnyddio tystiolaeth berthnasol
- mynegi rhesymau yn hytrach na haeriadau am eu dewisiadau a'u penderfyniadau
- datblygu eu dealltwriaeth o'r grŵp fel man diogel lle gallant deimlo'n hyderus i gymryd risgiau a gwneud datganiadau petrus sy'n agored i her resymegol gan eraill.

### Ar gyfer ystyried a myfyrio

- Pa mor dda y mae bwriadau dysgu yn caniatáu dewisiadau unigol a chydabyddiaeth o ystod o dystiolaeth o ddysgu?
- Sut gallaf i adeiladu ar fy ymarfer a'i wella drwy gynorthwyo rhagor ar ddysgwyr i:
  - fynegi eu dealltwriaeth o'u cynnydd mewn dysgu?
  - nodi a defnyddio tystiolaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau i lywio eu barn am gyflawniad a chynnydd ac i fynegi rhesymau yn hytrach na haeriadau?
  - datblygu eu gallu i gyfiawnhau dewisiadau a phenderfyniadau?
- Pa ffactorau sy'n cyfrannu at wneud yr ystafell ddosbarth a grwpiau dysgu cydweithredol yn fannau diogel lle mae dysgwyr yn teimlo'n hyderus i gymryd risgiau? Sut gallaf i fodelu a meithrin y rhain drwy fy ymarfer yn yr ystafell ddosbarth?

## **Sut gall asesu hyrwyddo galluedd?**

Bydd dysgwyr yn datblygu'r tueddiadau a'r galluedd ar gyfer galluedd wrth iddynt ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant yn annibynnol ac yn gydweithredol drwy weithgareddau hunanasesu ac asesu cyfoedion rheolaidd. Mae rhoi cyfrifoldeb i ddysgwyr am eu dysgu eu hunain (ac, yn hollbwysig, rhoi cymorth iddynt wneud hynny) drwy'r broses asesu yn meithrin eu gallu i weithredu fel asiantau sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain, yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddysgu pawb ac yn cyfrannu at gynllunio cynnydd pellach yn eu dysgu.

Yn y cyd-destun hwn bydd dysgwyr yn datblygu eu cyfrifoldeb am ddethol a chasglu tystiolaeth berthnasol eu bod nhw (ac eraill) wedi cyflawni bwriadau dysgu, gan asesu sut mae'r dystiolaeth yn cefnogi eu casgliadau a chyflwyno hyn gydag awdurdod i eraill. O ran eu dysgu nhw'u hunain, byddant yn gallu defnyddio ystod o dystiolaeth, yn bennaf o'r tu mewn i'r ystafell ddosbarth ond hefyd o gyd-destunau eraill yn yr ysgol a, lle bo'n berthnasol, cyd-destunau y tu hwnt i'r ysgol. Mae gwneud penderfyniadau o'r fath at ddibenion gwirioneddol ac ar gyfer cynulleidfa go iawn yn meithrin gallu dysgwyr i weithredu ac yn eu hysgogi drwy gydnabod llwyddiant yng nghymuned yr ysgol.

Er y bydd bwriadau dysgu yn aml yn cael eu cynllunio o ran y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r tueddiadau dysgwyr i'w cyflawni, gellir eu cynllunio ar yr un pryd i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwr o fetawybyddiaeth a'r prosesau maent yn dysgu drwyddynt. Bydd bwriadau dysgu fel y rhain yn ymateb nid yn unig i'r 'beth' ond hefyd y 'sut' mewn perthynas â dysgu. Wrth i'r dysgwyr gael eu herio a'u cefnogi i fyfyrion ar sut maent wedi dysgu, byddant yn dechrau cydnabod a mynegi prosesau yr oeddent arfer eu gwneud yn ddiarwybod iddynt, ac felly'n sicrhau bod y rhain ar gael i'w defnyddio yn y dyfodol. Wrth i'r dysgwyr ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r prosesau hyn, caiff eu gallu i arfer galluedd drwy gynllunio, monitro a chyfarwyddo eu dysgu ei wella, yn y cyd-destun uniongyrchol ac ar gyfer y tymor hwy. Gellir cefnogi datblygiad y galluedd hyn drwy ddefnyddio dysgwyr o'r portffolio dysgu i 'gymryd cam yn ôl' ac adolygu eu dysgu dros gyfnod o amser. At hynny, bydd gallu dysgwyr i ymdopi â phroblemau yn cael ei wella pan fydd y dysgwyr yn gallu defnyddio strategaethau dysgu pan fyddant yn wynebu her ac yn deall sut gallant gymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau newydd a gwahanol. Dylai meini prawf llwyddiant hefyd adlewyrchu'r ffocws hwn ar 'sut' yn ogystal â 'beth'; bydd cynllunio meini prawf llwyddiant sy'n gwneud hyn yn atgyfnerthu'r disgwyliad y gellir darparu tystiolaeth o gynnydd mewn dysgu drwy amrywiaeth o weithgareddau a/neu mewn ystod o gyd-destunau.

## Ar gyfer ystyried a myfyrio

- Sut ydw i'n cefnogi dysgwyr ar hyn o bryd i fyfyrion ar eu dysgu a datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o hunanasesu?
- Sut ydw i'n cefnogi dysgwyr ar hyn o bryd i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o asesu cyfoedion?
- Sut ydw i'n sicrhau bod hunanasesu ac asesu cyfoedion yn cefnogi ei gilydd?
- Pa gyfrifoldebau ydw i'n eu rhoi i ddysgwyr ar hyn o bryd ar gyfer dewis a chasglu tystiolaeth o ddysgu?
- Sut gall dysgwyr ddefnyddio eu portffolio dysgu (e-bortffolio) i gymryd cam yn ôl ac adolygu eu dysgu dros amser, a datblygu eu dealltwriaeth o sut maent yn dysgu?
- Sut gallaf i ddatblygu bwriadau dysgu sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr mewn perthynas â metawybyddiaeth a myfyrio ar sut maent yn dysgu?
- Sut gallaf i adeiladu ar fy ymarfer a'i wella drwy gynorthwyo rhagor ar ddysgwyr i:
  - ganolbwyntio trafodaeth am ddysgu a chynnydd ar yr hyn sy'n bwysig ac ar ddatblygu cysyniadau pwerus, yn ogystal â defnyddio sgiliau a galluoedd lefel uwch?
  - ehangu eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth nodi, dethol, casglu a chyflwyno tystiolaeth eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu a chynnydd mewn dysgu?
  - cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau newydd a heriol a mynegi sut maent wedi gwneud hynny?
  - cynllunio eu dysgu dros y tymor hwy?

## Ymlyniad, galluedd ac ymreolaeth: cwestiynu, adborth, trafod a deialog

Mae cwestiynu, trafod neu ddeialog ac adborth yn greiddiol i'r prosesau asesu ac i feithrin ymlyniad, ymreolaeth ac galluedd.

Mae ymarferwyr yn gofyn cwestiynau ar bob cam o'r broses ddysgu er mwyn:

- cynorthwyo dysgwyr i fynegi eu gwybodaeth flaenorol
- cynnwys dysgwyr wrth ddatblygu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant
- ysgogi myfyrio a meddwl dysgwyr mewn perthynas â'r gweithgareddau dysgu
- cynorthwyo dysgwyr i fynegi sut a beth maent yn ei ddysgu wrth iddynt weithio ar weithgareddau dysgu
- cynnwys dysgwyr wrth gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir gofyn cwestiynau i'r dosbarth, grwpiau neu unigolion; gellir eu cynllunio neu gallant godi'n ddigymell, gallant fynd i'r afael â phwyntiau sy'n berthnasol ar y pryd neu efallai y bydd ganddynt bersbectif mwy tymor hir. Ym mhob achos, rhaid cynllunio cwestiynau'n ofalus i agor opsiynau yn hytrach na'u cau, i roi cyfleoedd a chymorth i bawb gyfrannu, i annog ymatebion meddylgar yn hytrach na chyflym, ac felly i ddangos i ddysgwyr sut mae cyfrannu at ddeialog a fydd yn cefnogi prosesau hunanasesu ac asesu cyfoedion. Mae cynllunio i'r perwyl hwn yn golygu bod rhaid ystyried:

- strwythur y cwestiynau (agored yn hytrach na chaeedig)
- dulliau cyfarch
- arsylwi confensiynau trafodaethau parchus
- cwestiynau preifat yn ogystal â rhai cyhoeddus
- caniatáu amser i lunio ymatebion
- defnyddio goslef ac iaith y corff briodol
- gwerthfawrogi ac adeiladu ar ymatebion.

Felly, bydd ymarferwyr yn ymateb i gyfraniadau a chwestiynau dysgwyr mewn ffyrdd sy'n cydnabod gwerth yr holl gyfraniadau, gan gynnwys y rhai annisgwyl; mae hyn yn golygu gwneud defnydd cadarnhaol o'r holl gyfraniadau i ddatblygu'r drafodaeth. Nid yn unig y mae hyn yn hyrwyddo dysgu, mae hefyd yn modelu'r broses o sefydlu a chynnal lle diogel i ddysgwyr feddwl ar goedd a rhannu eu syniadau i gael eu trafod gan eraill. Mae cyfrifoldeb dysgwyr i gyfrannu at y drafodaeth yn cysylltu â'u cyfrifoldeb i ddatblygu eu dysgu eu hunain (a dysgu dysgwyr eraill) yn yr ystafell ddosbarth. Drwy drafodaeth o'r fath, bydd dysgwyr yn deall ymhellach diben y dysgu ac yn cael eu hysgogi gan hynny.

Nid proses un ffordd yw rhoi adborth i ddysgwyr ond yn hytrach mae'n un sy'n cynnwys ac yn ennyn diddordeb y dysgwr. Bydd yr ymarferydd a'r dysgwr yn defnyddio'r dystiolaeth o gyflawniadau'r dysgwr a'r arwyddion o feysydd i'w gwella er mwyn canfod y camau nesaf sydd eu hangen i symud y dysgu yn ei flaen. Bydd yr adborth yn ymwneud fel y bo'n briodol â 'beth' y dysgu a 'sut' y dysgu. Mae'r adborth yn cynnwys sgysiau un i un rhwng yr ymarferydd a'r dysgwr, yn ystod gweithgarwch dysgu parhaus yn yr ystafell ddosbarth ac wrth ystyried cynhyrchion neu ganlyniadau gweithgareddau dysgu. Bydd rhywfaint o adborth yn ymdrin yn uniongyrchol â gwella canlyniadau disyfyd y dysgu, rhai â gwella'r prosesau dysgu, rhai â llywio camau nesaf y dysgu. Bydd llawer o adborth yn yr ystafell ddosbarth ar lafar, bydd adborth arall yn ysgrifenedig.

Rhaid i adborth ymwneud yn glir â bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant, â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y dysgwyr, ac â'r camau nesaf yn y dysgu. Gall y dystiolaeth hon ganolbwyntio ar y ffyrdd y mae dysgwyr yn gweithio ar gyflawni'r meini prawf llwyddiant, ar p'un ai ydynt wedi bodloni meini prawf llwyddiant cytûn a/neu ar yr hyn y mae angen ei wneud o hyd i gyflawni'r bwriadau dysgu. Bydd adborth yn aml yn ymwneud â gwella dysgu o fewn y cyd-destun uniongyrchol ond, pan fo'n briodol, bydd adborth yn llywio'r camau sydd eu hangen i ddatblygu cynnydd a datblygu bwriadau dysgu newydd yng nghyd-destun darlun ehangach y continwmm dysgu. Mae rhoi gradd gydag adborth a deialog yn debygol o wanhau'r sylw a roddir i adborth.

Nid yw'n iawn tybio y bydd rhoi datganiadau adborth un ffordd (ymarferydd i ddysgwr) yn ennyn diddordeb dysgwyr ac ymateb ystyrlon. Mae angen i ymarferwyr sicrhau bod yr adborth a roddant nid yn unig yn berthnasol i'r bwriadau dysgu a'r meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt, ond ei fod hefyd yn defnyddio iaith barchus ond gonest ac, yn bwysig, yn darparu ac yn cefnogi cyfleoedd i holi, sgwrsio a thrafod ymhellach lle gellir rhoi sylw i gamsyniadau a chamddealltwriaeth. Rhaid cynllunio a darparu dulliau o wneud hynny'n ofalus lle na roddir adborth ar lafar.

Mae'n bwysig ystyried amseriad a dull yr adborth er mwyn sicrhau ei fod o gymorth ar unwaith ac nad yw'n amharu ar lif y dysgu; mae hyn yn arbennig o amlwg a pherthnasol wrth i ymarferwyr arsylwi dysgu parhaus yn yr ystafell ddosbarth a cheisio ei gefnogi mewn modd ymatebol.

Mae datblygiadau mewn technoleg ddigidol yn cynnig amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i roi adborth i ddysgwyr. Gellir defnyddio'r rhain mewn gwahanol gyd-destunau: gall ymarferwyr roi adborth i ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr; gall dysgwyr roi adborth i'w gilydd; gall dysgwyr ymgysylltu â'r adborth hwn ac ymateb iddo; yn fwy cyffredinol, gellir defnyddio'r dulliau hyn i gefnogi dysgu cydweithredol a thrafod bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant. Defnyddir adborth i lywio ystyriaeth o gynhyrchion y dysgu, boed ar ffurf drafft neu derfynol, boed yn ysgrifenedig, ar lafar, yn arteffactau neu'n berfformiadau; ymhellach, gan fod dysgu ar-lein yn cynnig dulliau o gofnodi prosesau dysgu, bydd cyfleoedd i annog dysgwyr i adolygu sut maent yn dysgu. Mae offer digidol yn darparu dulliau o fynegi a dangos adborth, anodi drafftiau dysgwyr, modelu perfformiad a chefnogi rhyngweithio parhaus rhwng yr ymarferydd a'r dysgwr, yn ogystal ag ymhlith dysgwyr.

Mae asesu cyfoedion, yn yr ystafell ddosbarth neu drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein, yn cynnig cyfleoedd pellach i roi adborth sy'n seiliedig ar ddeialog a thrafodaeth; ni ddylid ystyried hyn yn opsiwn hawdd i'r dysgwr nac i'r ymarferydd. Fel gyda phob trafodaeth grŵp, bydd yr ymarferydd yn darparu'r cymorth angenrheidiol, gan gynnwys modelu, i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r tueddiadau a'r galluoedd i gyfrannu'n effeithiol. Rhaid i ddysgwyr fod yn barod i archwilio tystiolaeth yng ngoleuni'r bwriadau dysgu a'r meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt, a gallu mynegi pa mor dda ac ym mha ffyrdd y mae'r dystiolaeth yn cydfynd â'r meini prawf hyn.

Mae'r un egwyddorion yn berthnasol beth bynnag fo natur y dystiolaeth: gweithgarwch parhaus yn yr ystafell ddosbarth neu ar-lein, cyflwyniadau, dogfennau ysgrifenedig, modelau, arteffactau neu berfformiadau. Dylai adborth a thrafodaeth wella nid yn unig y perfformiad yn y dasg dan sylw, ond dylai hefyd gefnogi datblygiad metawybyddiaeth ac felly hyrwyddo dysgwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu dysgu, gan gynnwys y gallu i'w gymhwyso mewn cyd-destunau newydd a heriol ac wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r darlun ehangach o gynnydd drwy'r continwwm dysgu.

## Ar gyfer ystyried a myfyrio

- Sut mae datblygu fy sgiliau fy hun a sgiliau'r dysgwyr i allu llunio cwestiynau a fydd yn eu herio a'u hysgogi?
- Pa gamau ydw i'n eu cymryd i leihau'r risg y gallai cwestiynau heriol gael eu hystyried yn rhai negyddol feirniadol?
- Tra bod adborth llafar yn y dosbarth yn digwydd yn y fan a'r lle ac yn arwain yn rhwydd at ymgysylltiad dysgwyr, sut ydw i'n hyrwyddo ymgysylltiad ag adborth ysgrifenedig?
- Pa ddulliau ar-lein (cydamserol neu anghydamserol) allaf i eu defnyddio i roi adborth ac i gefnogi ymgysylltiad dysgwyr ag adborth?
- Sut ydw i'n strwythuro asesu cyfoedion er mwyn sicrhau ffocws ar yr hyn sy'n bwysig wrth ddysgu?
- Pa ddulliau ar-lein (cydamserol neu anghydamserol) allaf i eu defnyddio i wella'r defnydd o asesu cyfoedion a gwella ei ansawdd?
- Pa gyd-destunau newydd a heriol allaf i eu cynllunio neu eu darparu, gan gynnwys dysgwyr yn y penderfyniadau hyn os oes modd, lle gall dysgwyr ddangos eu cynnydd yn eu dysgu?
- Pa gyfleoedd allaf i eu darparu i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r darlun ehangach o gynnydd drwy'r continwwm dysgu?
- Sut gallaf i ddefnyddio dulliau fel portffolios dysgu i alluogi dysgwyr i 'gymryd cam yn ôl' ac adolygu eu dysgu a'u cynnydd dros gyfnod o amser ac i lywio golwg mwy hirdymor ar gynnydd?

## Ymlyniad, galluedd ac ymreolaeth: nodyn am gyfnodau pontio<sup>8</sup>

Rydym i gyd yn symud drwy gyfnod o newid ar hyn o bryd. Mae plant a phobl ifanc, yn ôl yr arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, yn symud o un dosbarth i'r llall, llawer ohonynt o sefydliad blynyddoedd cynnar i'r ysgol gynradd neu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Eleni, mae plant a phobl ifanc hefyd yn symud yn ôl i'r ysgol ar ôl cyfnod hir pan oedd ysgolion ar gau i fwyafrif y dysgwyr, yn ogystal â phontio ar yr un pryd rhwng gwahanol ddulliau dysgu (ar-lein ac yn yr ystafell ddosbarth). Mae ymarferwyr wedi gweld newid byd hefyd, o'u hymarfer sefydledig yn yr ystafell ddosbarth drwy ddysgu ar-lein i'r hyn a allai fod yn gymysgedd o foddau, yr un pryd â phontio o'r cwricwlwm a pholisïau asesu blaenorol i'r Cwricwlwm i Gymru.

Er bod newidiadau'n aml yn cael eu gweld neu eu portreadu fel rhywbeth sy'n achosi straen (weithiau heb unrhyw nodweddion cadarnhaol), ceir tystiolaeth bod pontio llwyddiannus mewn addysg yn gallu digwydd ac yn digwydd pan fydd:

- dysgwyr yn hoffi'r ysgol ac nid ydynt yn teimlo'n ynysig

---

<sup>8</sup> Mae'r adran hon wedi'i llywio gan gyflwyniad diweddar gan Divya Jindal-Snape o Brifysgol Dundee; mae ei gwaith diweddaraf ar bontio i'w weld mewn dwy erthygl a gyhoeddwyd gan y British Educational Research Journal: (a) Jindal-Snape, D a Cantali, D (2019) 'A four-stage longitudinal study exploring pupils' experiences, preparation and support systems during primary–secondary school transitions' *British Educational Research Journal*, 45:6, tt 1255–1278; (b) Jindal-Snape, D, Hannah, E F S, Cantali, D, Barlow, W a MacGillivray, S (2020) 'Systematic literature review of primary–secondary transitions: International research' *Review of Education* 8:2, tt 526–566.

- dysgwyr yn mwynhau ymdeimlad o berthyn ac wedi cynnal a datblygu perthnasoedd yn ystod y pontio
- diwylliant yr ysgol wedi'i nodweddu gan berthnasoedd parchus, dwyochrog
- gan ddysgwyr ymdeimlad o ymgysylltu â dysgu ac maent yn gweld cyflawniad yn eu dysgu a'u cynnydd.

Mae'r tebygrwydd yn amlwg rhwng y canfyddiadau hyn a hyrwyddo ymlyniad, ymreolaeth a galluedd drwy brosesau asesu sy'n cynnwys ac yn grymuso dysgwyr fel cyfranogwyr gweithredol ac yn hyrwyddo lles pawb yn fwy cyffredinol.

### **Ar gyfer ystyried a myfyrio**

- O'm profiad i o ddysgu ac addysgu ar-lein pan oedd ysgolion ar gau i fwyafrif y dysgwyr, beth ydw i wedi'i ddysgu am y ffyrdd mae plant a phobl ifanc yn gallu dysgu ac yn dysgu?
- Sut gallaf i ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon i gefnogi asesiad mwy effeithiol drwy:
  - ehangu'r amrywiaeth o ffyrdd o roi adborth a meithrin ymgysylltiad mwy effeithiol gydag adborth ymysg dysgwyr?
  - ymestyn cyfleoedd ar gyfer deialog a thrafodaeth?
  - ymestyn cyfleoedd ar gyfer asesu cyfoedion?
  - darparu ffurfiau a ffynonellau newydd o dystiolaeth o ddysgu?
  - defnyddio ac archwilio ystod ehangach o dystiolaeth na'r hyn a gynhychir yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys tystiolaeth ddigidol?
  - hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr a chyfrifoldeb dros eu dysgu?
  - datblygu llwybrau amgen i'r un bwriadau dysgu?
- Sut gallaf i ddefnyddio portffolio dysgu (neu ddulliau tebyg) i alluogi dysgwyr i 'gymryd cam yn ôl' ac adolygu eu dysgu a'u cynnydd dros gyfnod o amser, gan lywio eu barn tymor hwy am gynnydd yn ystod cyfnod pontio?
- Sut gall fy ymarfer asesu gefnogi dysgwyr drwy'r cyfnod pontio hwn?
- Sut gallaf i ddefnyddio ymarfer asesu i sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei glywed a bod eraill yn gwrandao arno mewn gweithdrefnau pontio?